

Taflen Ffeithiau Llinell Faethu Cymru: Honiadau

Rhagymadrodd

Mae wynebu honiad o gam-drin neu o esgeulustod yn rhywbeth y bydd rhai gofalwyr maeth, yn anffodus, yn ei brofi yn ystod eu gyrfa faethu. Dangosodd ein hadroddiad, [Cyflwr y Genedl 2016](#), fod traean o'r gofalwyr y gwnaed arolwg ohonynt wedi wynebu honiad. Mae hyn, yn anochel, yn amser ingol i bawb sy'n gysylltiedig. Fe eglura'r daflen ffeithiau hon beth yw honiad, yr hyn sy'n digwydd os ydych yn destun honiad, a sut i ddiogelu pawb ar eich aelwyd.

Beth yw honiad?

Haerriad yw honiad gan unrhyw berson fod gofalwr maeth, neu aelod arall o'r aelwyd maethu, wedi neu efallai wedi ymddwyn mewn ffordd sydd wedi niweidio plentyn, wedi cyflawni tramgwydd troseddol yn erbyn plentyn, neu wedi ymddwyn tuag at blentyn sy'n dynodi nad ydynt yn addas i weithio â phlant.

Mae honiadau'n fwy difrifol na chwynion cyffredinol yn erbyn gofalwyr maeth oherwydd bod yn rhaid ymchwilio i honiadau o dan y weithdrefn leol ar gyfer diogelu plant. Dylid trin honiadau'n wahanol i bryderon ynglŷn â safonau gofal gwael.

Mae honiad a wnaed yn eich erbyn neu yn erbyn aelod o'ch teulu yn fater diogelu, a gyfeirir at eich adran gwasanaethau cymdeithasol leol, ac fe'i hymchwilir o dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Byddant yn:

- Sicrhau diogelwch pob plentyn ar yr aelwyd ar unwaith. Gallai hyn olygu symud y plant rydych yn gofalu amdanynt, tra disgwylir canlyniadau'r ymchwiliad.
- Hysbysu'r heddlu.
- Cynnull cyfarfod strategaeth.

Mae cyfarfod strategaeth yn gyfarfod amlddisgyblaethol a gadeirir gan uwch-reolwr yn y gwasanaethau cymdeithasol ac mae'n dilyn o ganlyniad i'r drafodaeth ar strategaeth. Bydd yr heddlu'n bresennol gan eu bod yn rhan o'r ymchwiliad. Bydd cynrychiolydd o'ch gwasanaeth maethu yno, ynghyd ag unrhyw weithiwr proffesiynol sydd â gwybodaeth berthnasol am y digwyddiad, y plentyn, neu'ch teulu chi.

Mae'r cyfarfod yn ystyried yr wybodaeth sydd ar gael ac mae'n cynllunio'r ymchwiliad. Gwneir penderfyniad yn y cyfarfod hwn ynglŷn â phwy fydd yn cefnogi'r gofalwr maeth, a pha wybodaeth y gellir ei rhannu â'r gofalwr maeth ynglŷn â'r honiad ac ymholiadau Adran 47. Bydd cadeirydd y cyfarfod strategaeth yn cadarnhau hyn yn ysgrifenedig wrth y gofalwyr maeth. Bydd yr awdurdod lleol a'ch gwasanaeth maethu yn eich hysbysu am y canlyniad.

Gallai'r gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu eich cyfweld. Cynghorir yn gryf eich bod yn ymfyn cyngor cyfreithiol ac yn cael cyfreithiwr yn bresennol mewn cyfweiliad gan yr heddlu. Dylai aelodau'r Rhwydwaith Maethu ffonio'n llinell gymorth gyfreithiol am gyngor.

Drwy gydol y cyfnod hwn, ni all eich gwasanaeth maethu rannu gwybodaeth am yr honiad. Dylai'r person sy'n cefnogi'r gofalwr maeth drefnu i'r gofalwr wirio a bwrw sylw ar yr wybodaeth ffeithiol a roddwyd, oni bai bod hyn yn tanseilio unrhyw ymchwiliad troseddol, a'u hysbysu am y gweithdrefnau amddiffyn plant a gaiff eu dilyn ac am y graddfeydd amser a bennir ar gyfer y broses. Dywed gofalwyr maeth yn aml nad ydynt yn derbyn unrhyw gefnogaeth ar yr union adeg pan fo arnynt ei hangen fwyaf. Mae hyn oherwydd, pa fodd annymunol bynnag y mae hyn yn swnio, eich bod yn rhan o ymchwiliad, ac felly er eich lles eich hun, ni allant ddadlennu gwybodaeth cyn ichi gael eich cyfweld. Dyma pam hefyd na chewch fynychu'r cyfarfod strategaeth. Byddwch yn barod - mae yna fathau eraill o gymorth ar gael.

Unwaith y bydd aelodau'r cyfarfod strategaeth yn cael yr holl wybodaeth berthnasol, fe fyddant yn cyfarfod eto i benderfynu ar yr hyn fydd yn digwydd nesaf. Eu prif bryder bob amser yw diogelwch yr holl blant ar eich aelwyd. Bydd yr awdurdod lleol a'ch gwasanaeth maethu'n rhannu'r penderfyniad hwn gyda chi.

Mae o fudd i bawb gwblhau'r broses hon mor brydlon â phosibl, ond nid oes yna amserlen benodedig. Mae profiad yn awgrymu ei fod, yn nodweddiadol, yn para wythnosau, yn hytrach na dyddiau, ond fe allai fod yn fisoedd. Mae hwn yn gyfnod anodd iawn i ofalwyr, a ddywed wrthym nad ydynt yn gwybod beth sy'n digwydd a bod eu bywydau cyfan wedi'u gohirio. Tra bod yr ymchwiliad i'r honiad yn mynd rhagddo, ni leolir plant newydd gyda chi.

Cewch wybod y casgliad a'r hyn sy'n digwydd nesaf. Mae yna dair agwedd i hyn:

1. Penderfyniad ynglŷn â ph'un a yw unrhyw blentyn neu berson ifanc yn parhau yn eich gofal.
2. Unrhyw gamau y gall yr heddlu fod yn eu cymryd yn eich erbyn.
3. Mae'ch gwasanaeth maethu'n ystyried a ddylid parhau i'ch cymeradwyo fel gofalwr maeth.

Un penderfyniad posibl yw ei fod yn dod yn fater 'safonau gofal', hynny yw, ymchwiliad a gynhelir gan y gwasanaeth maethu i benderfynu a gynhaliodd y gofalwr safonau gofal digon uchel, a ph'un a ddylai barhau fel gofalwr maeth.

Cefnogaeth

Mae yna ddyletswydd ar eich gwasanaeth maethu i sicrhau eich bod yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â honiadau ac i ddarparu cefnogaeth annibynnol (Safonau Gofynnol Cenedlaethol 2003). Mae hyn cynnwys eiriolaeth a chyngor cyfreithiol. Y Rhwydwaith Maethu yw un o'r sefydliadau sy'n cynnig cefnogaeth annibynnol.

Mae'r gefnogaeth hon i chi, yn annibynnol o'ch gwasanaeth maethu ac yn ychwanegol at unrhyw beth a gynigiant. Y chi sy'n rheoli'r trefniadau ac mae'r gefnogaeth yn gyfrinachol.

Rydych yn dal yn ofalwr maeth wedi'i gymeradwyo ac felly fe fydd eich gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol yn parhau i ymweld ac fe allwch gymryd rhan mewn hyfforddiant a digwyddiadau eraill, fel arfer.

Lwfansau

Tra bod y lleoliad yn dal yn agored, mae arferion gorau'n datgan y dylid talu cyfran o'r lwfans maethu ichi, hyd yn oed os nad yw'r plentyn yn byw gyda chi. Mae'r telerau yn eich Cytundeb Gofal Maeth. Os penderfynir na fydd y plentyn yn dychwelyd atoch, fe fydd eich lwfans yn darfod,

hefyd. Ymgynghorwch â'ch gwasanaeth cymorth annibynnol os nad ydych yn sicr ynglŷn ag unrhyw ran o hyn.

Byddwch yn barod a chadwch yn ddiogel

Byddwch yn barod. Dilynwch arferion gofalu diogelach da i ddiogelu'ch aelwyd.

- Atal: dilynwch y canllawiau ym mholisi a gweithdrefnau'ch gwasanaeth maethu.
- Cadwch eich polisi teulu gofalu diogelach yn gyfoes.
- Ewch am hyfforddiant.
- Cadwch eich cofnodion yn gyfoes. Cofnodwch ddigwyddiadau'n wrthrychol.
- Hysbyswch eich darparwch am unrhyw ddigwyddiadau cyn gynted ag y gallwch.
- Deallwch sut y gallwch gael cefnogaeth.
- Deallwch pam y gall plant wneud honiad.

Sut y gall Y Rhwydwaith Maethu helpu

Mae'r Rhwydwaith Maethu yn cynnig cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth. Mae ein harbenigedd a'n gwybodaeth bob amser yn gyfoes ac ar gael drwy'n llinellau cymorth, cyhoeddiadau, hyfforddiant a'n gwasanaeth ymgynghori hanfodol i aelodau.

Cyngor

Llinell Faethu Cymru

Ffoniwch ni ar 0800 316 7664 rhwng 9.30yb - 12.30yp rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Os ydych yn ffonio ar adegau eraill, a fyddech cystal â gadael neges, ac fe wna rhywun eich ffonio cyn gynted â phosibl.

Gallwch anfon e-bost atom neu ysgrifennu atom yn:

Fosterlinewales@fostering.net

Rhwydwaith Maethu Cymru,
1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead,
Bae Caerdydd CF10 4DQ.

Cefnogaeth annibynnol

Gall cefnogaeth annibynnol fod yn hanfodol i ofalwyr maeth ar adegau pan geir honiadau neu anghydfodau eraill y gallant fod yn rhan ohonynt. Gall Y Rhwydwaith Maethu ddarparu cefnogaeth annibynnol i ofalwyr maeth drwy eu maethu. Nodwch, os gwelwch yn dda, os ydych yn ofalwr maeth, ni allwch gael cefnogaeth annibynnol gennym ni yn uniongyrchol. Mae'n rhaid ichi gysylltu â'ch gwasanaeth maethu i weld a oes ganddynt gontract cyngori a chyfryngu gyda ni, i ddarparu'r gefnogaeth hon.

Cyhoeddiadau

Gallwch brynu'n cyhoeddiad, [Gofalu Diogelach: Ymagweddiad Newydd](#), sy'n ymdrin â rhai materion ehangach ac sy'n awgrymu ffyrdd o feddwl am yr egwyddorion ar gyfer amddiffyn plant a phobl ifanc, ar yr un pryd â diogelu'ch hunain a'ch teuluoedd rhag honiadau a chwynion.

Mae'r Rhwydwaith Maethu wedi paratoi llyfryn o'r enw 'Signposts in Fostering', a gynlluniwyd i helpu gofalwyr maeth i ddeall yr hyn sy'n debygol o ddigwydd pe gwneid honiad yn eu herbyn nhw neu aelod o'u teulu. Mae'n cynnwys:

- eglurhad o'r hyn yw honiadau a pham y cânt eu gwneud
- awgrymu arferion da i leihau'r risg o honiad
- cyngor ynglŷn â'r hyn i'w wneud os gwneir honiad

- cyngor ar sut i geisio cymorth cyfreithiol pe gwneid honiad
- gwybodaeth am yr hyn a allai ddigwydd unwaith y bydd honiad wedi'i wneud.

Gall aelodau'r Rhwydwaith Maethu brynu'n cyhoeddiad 'Allegations' ar-lein am ddim ond £2.00. (Mae'r 'Signpost' ar gael am £4.00 i'r rheiny nad ydynt yn aelodau o'r Rhwydwaith Maethu).

Cefnogaeth ac adnoddau

Mae ein gwefan yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth; gweler thefosteringnetwork.org.uk/advice-information/looking-after-fostered-child/allegations, tra bod ein cymuned ar-lein yn dod â gofalwyr maeth ynghyd i gael cefnogaeth gan eu cymheiriaid. Gallwch fewngofnodi i rannu'ch profiad ac i gael cyngor gan ofalwyr maeth eraill. Mae ein cymuned ar-lein yn fan diogel a sicr i drafod honiadau. www.thefosteringnetwork.org.uk

Yswiriant diogelwch cyfreithiol

Mae'r Rhwydwaith Maethu yn darparu modd i'n haelodau gael at gynllun yswiriant diogelwch cyfreithiol. Mae ein haelodaeth gofal maeth wedi ymddeol yn ymestyn yr yswiriant hwn i aelodau nad ydynt yn maethu mwyach.

Hyfforddiant a gwasanaeth ymgynghori

Lle bynnag rydych yn eich gyrfa faethu, fel gofalwr maeth, gweithiwr cymdeithasol neu reolwr, mae gan Y Rhwydwaith Maethu ystod o hyfforddiant wedi'i gynllunio i ddiwallu'ch anghenion datblygu chi. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'n rheolwr dysgu a datblygu, Sarah Mobedji, yn sarah.mobedji@fostering.net.

Ynglŷn â'r Rhwydwaith Maethu

Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen faethu'r Deyrnas Unedig, ac fe ddaw â phawb ynghyd sy'n gysylltiedig â bywydau plant wedi'u maethu i wneud gofal maeth y gorau un y gall fod.

Cysylltu â Ni

I ganfod mwy o wybodaeth am ein gwaith yng Nghymru, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:
Rhwydwaith Maethu Cymru,
1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead,
Bae Caerdydd CF10 4DQ.

Ffôn: 029 2044 0940

E-bost: wales@fostering.net

Gwefan: thefosteringnetwork.org.uk



/thefosteringnetwork



@fosteringnet